

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 11eg yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Rhys Richards, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Gwilym Davies, Euros Puw a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Gwynedd Jones, Jean Roberts a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Huw Antur ac Eifion Davies i'r cyfarfod a chafwyd diweddariad ar y datblygiadau ym Mhartneriaeth Penllyn ganddynt. Eglurodd Huw Antur ei bod hi'n gyfnod cyffrous ar y Bartneriaeth gyda chynlluniau i gymryd fwy o gyfrifoldebau am wasanaethau gan Gyngor Gwynedd a'r bwriad i gyflogi "clerk of works" rhan amser. Roedd cynlluniau hefyd i sefydlu Fforwm Ardal ac agor 'Canolfan Gwasanaethau a Chyngor' yn Y Bala. Diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod a dymunwyd yn dda i'r Bartneriaeth gyda'u cynlluniau.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Adran ail-gylchu Cyngor Gwynedd.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ohirio'r ymweliad y swyddog gan fod y cwynion a anfonwyd i'r adran ail-gylchu wedi eu datrys.

Ceunant ger Rhos Fedw, Parc

Roedd swyddog Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r safle ond roedd yn ansicr o leoliad y pwll dwr a oedd yn hel ar y ffordd allan o'r pentref. Roedd y cler wedi derbyn manylion bellach ac wedi ei anfon ymlaen iddo. Roedd y swyddog wedi diogelu'r safle wrth Rhos Fedw a byddai'r gweithlu yn cynnal y twll maes o law ond y tîrffediannwr oedd yn gyfrifol am y ffens derfyn.

Oriau agor a gwasanaeth Cangen Nat West, Y Bala.

Yn dilyn ein cwynion am wasanaeth y Nat West yn Y Bala derbyniwyd llythyr gan y rheolwr yn egluro mae gwella'r gwasanaeth i'r cwsmeriaid oedd yn bwysig iddynt a diolchwyd i'r Cyngor am eu mewnbwn. Roedd problemau staffio yn y gangen ac weithiau roedd rhaid iddynt anfon staff di-gymraeg yno. Roedd wedi trafod y broblem ciwio gyda'r staff ond nid oeddynt ar hyn o bryd mewn sefyllfa i ymestyn yr oriau agor ond roedd hyn yn cael ei archwilio'n gyson.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

i) Cofnodion y Cyfarfod Blyneddol, 9/7/12 a chopi o agenda'r cyfarfod nesaf, 12/9/12.

b) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Medi.

ii) Copïau o'r gwaharddiadau a'r gorchmynion cyhoeddus a oedd yn ymwneud a'r Ffair Wledig a'r Treiathlon.

iii) Llythyr yn ein cyngori bod cynllun cyfieithu cymunedol newydd wedi cael ei sefydlu yng Ngogledd Cymru.

iv) Gwybodaeth am y cynllun 'Ffitrwydd yn y Gymuned' gyda'r cyfle i gael hyfforddiant i fod yn hyfforddwr ffitrwydd.

- v) Roedd y clerc wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ar y 18/9/12 i drafod ad-drefnu darpariaeth gofal dydd ar gyfer bobl hyn yn ardal Y Bala. Cytunwyd y dylai'r clerc fynychu'r cyfarfod os oedd yn bosib.
- vi) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu 'Cynhadledd Trawsnewid Anabledd Dysgu' ym Mhorthmadog, 8/10/12.
- vii) Parneriaeth Amglycheddol Gwynedd – Manylion am eu 'Cystadleuaeth Gerddi Bwyd Gwynedd'.

c) Un Llais Cymru

- i) Gwybodaeth am eu cyrsiau hyfforddi.
- ii) Copi diweddaraf o'r 'Llais'.
- iii) Rhestr o'r cynigion i'w trafod yn y cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 13/10/12.
- iv) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yng Nghlwb Criced Dolgellau, 26/9/12.

ch) Parc Cenedlaethol

- i) Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Llythyr yn ein cynghori bod y 'Canllawiau Cynllunio Atodol ynglŷn ag Arallgyfeirio ar Fferm a Llety Ymwelwyr' ar gael i'w harchwilio.
- ii) Llythyr yn ymddiheuro bod y rhestr cyfarfodydd a anfonwyd ym mis Mehefin yn uniaith Saesneg. Amgawyd rhestr ddwyieithog yn ei le.

d) Amrywiol

- i) Heddlu Gogledd Cymru - Derbyniwyd e-bost yn ein cynghori eu bod yn lansio 'Ymgyrch Gwarchod Ysgolion yng Ngwynedd'. Roeddynt yn apelio i'r cyhoedd cadw golwg ar yr ysgolion a hysbysu'r heddlu o unrhyw ymddygiad amheus.
- ii) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Llythyr ynglŷn â lansio'r ymgynghoriad 'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/40E – Codi adeilad amaethyddol. Tyddyn Du, Parc.

NP5/63/267 - Codi deorfa eog a gwaith cysylltiol. Tir ger Llyn Celyn.

NP5/72/LB143A - Caniatâd Adeilad Rhestredig. Eglwys Beuno Sant, Llanycil.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei chaniatáu:-

NP5/72/221 – Adeiladu estyniad. Ty'n y Cae, Llidiardau.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd ail randal y Praesept - £1,500

Datganiad Blynyddol.

Cafwyd cadarnhad gan UHY Hacker Young bod y Datganiad Blynyddol yn gywir. Cytunwyd i gymeradwyo'r Datganiad a arwyddwyd Adran 3 gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan NSPCC a Shelter Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall.

Cartref Bronygraig a datblygiad Awel y Coleg.

Trafodwyd bod agoriad Awel y Coleg wedi cael ei ohirio a gan fod cynlluniau i gau Bronygraig yn y dyfodol agos roedd pryder am ofal y preswylwyr oedd ar ôl.

Bin ysbwriel ychwanegol i groesffordd Y Fron, Parc.

Gofynnwyd i'r clerc anfon cais i Gyngor Gwynedd am fin ysbwriel ychwanegol i'r man casglu ger Y Fron.